


# Effaith gynyddol tlodi a'r argyfwng costau byw ar blant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru

*Papur briffio gan Barnardo's Cymru*

Believe in children

Barnardo's Cymru

Dyddiad: Ebrill 2023

*‘Rydych chi’n gwneud popeth o fewn eich gallu i gael y mymryn lleiaf i oroesi. Rydych chi angen arian, ond does dim. Rydych chi angen arian ond does unman i’w gael, er bod gan rai pobl fwy na digon.’*

*Person ifanc sy’n cael eu cefnogi gan Barnardo’s Cymru*

**Mae dros draean o blant (34%) yng Nghymru yn byw mewn tlodi[1] - y gyfran uchaf o holl wledydd y DU.[2] Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar yn nodi tlodi fel ‘her ganolog’ ein cenhedlaeth.[3]**

Mae’r papur briffio hwn yn amlinellu’r hyn y mae pobl ifanc yn ei ddweud wrth Barnardo’s Cymru am dlodi a chostau byw, y ffyrdd y mae Barnardo’s Cymru yn ymateb i’r argyfwng, a’r camau y credwn y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd.

Mae’r diweddariad sydd ar y gweill i’r Strategaeth Tlodi Plant yn gyfle i feddwl yn uchelgeisiol am y dulliau y gellir eu defnyddio i fynd i’r afael â thlodi yng Nghymru, ac rydyn ni wedi gwneud argymhellion gyda hyn mewn golwg.



[1] https://gov.wales/measures-poverty-april-2020-march-2021

[2] https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-57157436

[3] https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/Time_for_%20Change_%20Poverty_English.pdf

# Yr argyfwng costau byw – beth ydyn ni'n ei weld yng Nghymru?

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn adrodd bod prisiau ynni wedi codi 129.4% yn y flwyddyn yn arwain at fis Ionawr 2023, ac mae 1 o bob 3 oedolyn yn ei chael hi'n anodd fforddio taliadau rhent neu forgais.[4]

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn adrodd bod cynnydd sylweddol wedi bod yn yr angen i ddarparu cyngor ar ddyledion ledled Cymru, a chyngor ar ddyledion ynni yw'r mater mwyaf cyffredin, ac mae dyledion treth gyngor hefyd ar gynnydd.[5]

Rhwng mis Ebrill a mis Medi 2022, mae Ymddiriedolaeth Trussell yn dweud ei bod wedi dosbarthu 76,688 o barseli bwyd brys yng Nghymru,[6] gyda Barnardo's Cymru yn gweld cynnydd sylweddol yn yr angen i gyfeirio teuluoedd am gymorth bwyd brys.

Mae Barnardo's Cymru wedi'i wreiddio mewn cymunedau ledled Cymru. O ddydd i ddydd, rydyn ni'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd ar y materion sy'n effeithio fwyaf ar eu bywydau. Mae hyn yn rhoi darlun manwl i ni o sut mae tlodi a chostau byw yn effeithio ar filoedd o deuluoedd ledled Cymru.

Yn ddiweddar, buom yn trafod materion costau byw gyda grŵp ffocws o chwech o bobl ifanc rhwng 16 a 22 oed a gefnogir gan un o wasanaethau Barnardo's Cymru. Dywedodd un o'r awdurdodau lleol wrthym:

*"Mae'n argyfwng. Mae'n argyfwng enfawr, alla i ddim meddwl am ffordd well o'i ddisgrifio na hynny."*

*Alex, 16, Bristol*

Dywedodd pobl ifanc eu bod yn sylwi ar y cynnydd yng nghost trafnidiaeth gyhoeddus a bod hyn yn achosi pryderon, ac yn y pen draw yn golygu llai o gyfleoedd i adael cartref, gweld ffrindiau a chrwydro o gwmpas.

Mae gan rai pobl ifanc berthynas anodd gartref ac maent yn teimlo eu bod eisiau bod oddi cartref yn amlach, ond mae hyn yn mynd yn fwyfwy anodd. Dywedodd pobl ifanc wrthym fod hyn yn aml yn golygu eu bod yn treulio mwy o amser ar-lein fel ffordd o gysylltu â'u ffrindiau.

Rhannodd un person ifanc ei ofnau ynghylch mynd i'r brifysgol o'i ddewis yn Llundain oherwydd y costau byw a'i allu i gael digon o gymorth ariannol i fyw yn y ddinas, er mai ei uchelgais yw gwneud gradd yn y gyfraith



mewn prifysgol yn Llundain. Pan ofynnwyd iddynt sut roedd yr argyfwng costau byw yn gwneud iddynt deimlo am y dyfodol, dywedodd un person ifanc: *"ddim yn dda o gwbl."*

Roedd pobl ifanc yn y grŵp ffocws yn ymwybodol iawn o'r annhegwch rhwng 'pobl gyfoethog a phobl dlawd' a'r ffordd y mae pobl ar incwm is, yn enwedig pobl ifanc, yn dargedau ar gyfer benthycwyr arian a ffynonellau credyd ansicr. Roeddent yn teimlo'n gryf am pa mor annheg yw hyn.

Roedd pobl ifanc hefyd yn ymwybodol o bwysau'r cartref sy'n gysylltiedig â chostau byw, gydag un yn dweud:

*"Mae rhai pobl nad ydynt yn gallu fforddio cael y peiriant golchi a'r peiriant sychu dillad ymlaen ar yr un pryd, ac mae eraill sy'n rhoi eu rheiddiaduron, dŵr a nwy ymlaen drwy'r adeg, er bod biliau'n codi'n aruthrol"*

Dywedodd un cyfranogwr yn y grŵp ffocws,*"Mae rhai pobl nad ydynt yn gallu fforddio cael y peiriant golchi a'r peiriant sychu dillad ymlaen ar yr un pryd, ac mae eraill sy'n rhoi eu rheiddiaduron, dŵr a nwy ymlaen drwy'r adeg, er bod biliau'n codi'n aruthrol."*

Dywedodd un arall fod ganddynt fwy a mwy o ffrindiau sy'n *"cymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol fel danfon cyffuriau neu waith rhyw oherwydd yr argyfwng costau byw a'r angen i ennill arian."*

[4] *https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/articles/costofliving/latestinsights*

[5] Cyngor ar Bopeth Cymru – Dangosfwrdd Costau Byw ***Dangosfwrdd costau byw Cyngor ar Bopeth Cymru | Flourish***

[6] The Trussell Trust – Ystadegau canol blwyddyn ***https://www.trusselltrust.org/news-and-blog/latest-stats/mid-year-stats/***

## Canfu arolwg diweddar[7] o ymarferwyr Barnardo's ledled y DU:

Mae
**62%**
wedi cefnogi teuluoedd yn ein gwasanaethau gyda mynediad
at fanciau bwyd

Mae
**53%**
wedi rhoi dillad i deuluoedd neu eu nodi fel
dillad am ddim

Mae
**49%**
wedi cefnogi teuluoedd sy'n cael trafferth dewis rhwng
gwresogi a bwyta

Y **pryder mwyaf cyffredin** ymysg defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn profi tlodi oedd :

**88%** mynediad at **fwyd**

**87%** ac **ynni**

## Canfu arolwg barn YouGov ar gyfer Barnardo's ym mis Chwefror 2023:

Ym mis Chwefror 2023 cynhaliodd Barnardo's bleidlais gynrychioladol o 1000 o rieni ym Mhrydain Fawr gyda YouGov. Dywedodd rhieni yng Nghymru wrth Barnardo's am eu profiadau o'r cynnydd mewn costau byw dros y pedwar mis diwethaf:

Mae
**61%**
yn dweud bod eu sefyllfa ariannol
wedi dirywio

Roedd
**52%**
wedi gwario llai ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol yn ystod y pedwar mis diwethaf
i arbed arian

Roedd
**21%**
wedi dibynnu ar ffrindiau a theulu
i helpu i dalu costau

Mae
**28%**
yn ei chael yn anodd fforddio
fforddio bwyd i blant
yn ystod gwyliau'r ysgol ac mae

**54%**
yn ei chael yn anodd fforddio
gweithgareddau i blant
yn ystod gwyliau'r ysgol[8]

[7] Arolwg Ymarferwyr Chwarterol Barnardo's, Ton 13, 7 Gorffennaf – 28 Gorffennaf 2022

[8] Cynhaliwyd arolwg YouGov ym mis Tachwedd 2022 ar ran Barnardo's gyda sylfaen o 412 o gyfranogwyr ar gyfer Cymru

# Camau gweithredu Barnardo's Cymru ar gostau

Mae gan Barnardo's hanes hir o weithio gyda theuluoedd yng Nghymru, llawer ohonynt yn profi tlodi. Rydyn ni'n darparu nifer o ymyriadau gan gynnwys cymorth cofleidiol ar gyfer rheoli dyledion ac ôl-ddyledion a chefnogi'r teulu cyfan.

Er bod gennym brofiad sylweddol o weithio yn y maes hwn, mae nifer y teuluoedd, a difrifoldeb y broblem, yn fwy difrifol nag yr ydyn ni wedi'i brofi ers tro. Mae ein hymarferwyr yn gweithio'n arloesol i gefnogi teuluoedd ym mhob ffordd bosibl.

## Pecynnau Barod am y Gaeaf' Barnardo's, Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd Caban Bach, Gwynedd

**Mae Caban Bach yn wasanaeth cefnogi teuluoedd sy'n cael ei redeg gan Barnardo's yng Ngogledd Cymru. Disgrifiodd Rheolwr Gwasanaethau Plant sut mae'r gwasanaeth wedi bod yn gweithio i gefnogi teuluoedd:**

"Mae nifer o'r teuluoedd sy'n cael eu cefnogi gan Gaban Bach Barnardo's yn poeni am effaith yr argyfwng costau byw arnyn nhw a'u teulu. Mae defnyddio'r banc bwyd lleol yn dod yn beth arferol, yn ogystal â gofyn am gymorth ariannol drwy fenthyciadau argyfwng ac unrhyw gymorth ariannol arall sydd ar gael. Fe wnaethom sefydlu prosiect 'Barod am y Gaeaf' i gefnogi teuluoedd drwy ddarparu pecyn gaeaf iddynt. Roedd y pecyn yn cynnwys blanced Oodie, blanced cnu, menig, het, sgarff, sanau gwrth-lithro a phyjamas ar gyfer y plant iau.

Mae biliau ynni yn bwysau enfawr ar bobl ac roedden ni wedi gobeithio bod y cam bach hwn wedi helpu teuluoedd i deimlo'n dawelach eu meddwl a theimlo eu bod yn cael cefnogaeth. Fel gwasanaeth, roedden ni eisiau sicrhau ein bod yn gwneud popeth posib i gefnogi teuluoedd drwy'r cyfnod anodd hwn. Mae grŵp o ferched lleol hefyd wedi gwau sgarffau a hetiau ar gyfer y plant lleol. Mae ymdeimlad o gymuned yn yr ardal, pobl yn helpu pobl i wneud bywyd ychydig yn haws."



'Ready for Winter Kits' include pyjamas for the younger children.

Dywedodd un person rydyn ni'n ei gefnogi: *"Rydyn ni'n ddiolchgar iawn. Mae'r pecynnau Barod am y Gaeaf yn mynd i fod yn help enfawr dros y gaeaf, maen nhw mor gynnes, does dim rhaid i ni roi'r gwres ymlaen mor aml, mae hyn yn arbed llawer o arian i ni gan fod gwres mor ddrud – diolch i chi unwaith eto!"*

**Cronfa Argyfwng Plant Barnardo’s**
Er mwyn diwallu’r angen cynyddol, mae Barnardo’s wedi lansio Cronfa Argyfwng Plant. Mae’n galluogi ein hymarferwyr ledled y DU i gael gafael ar gyllid yn gyflym i gefnogi teuluoedd sy’n wynebu angen dybryd o fewn ein gwasanaethau. Mae staff Barnardo’s ledled Cymru yn defnyddio’r Gronfa Argyfwng Plant yn rheolaidd i ddarparu talebau archfarchnadoedd, talebau tanwydd, a llawer mwy o ymyriadau uniongyrchol i deuluoedd ar raddfa fach sy’n helpu teulu sy’n wynebu argyfwng uniongyrchol o ran cael gafael ar fwyd neu wres. Mae’r enghreifftiau canlynol yn dangos sut mae’r gronfa hon yn cael ei defnyddio yng Nghymru:



Fel rhan o ymyriad iechyd meddwl, a rhywfaint o waith ‘bag pryderon’ gyda therapydd, roedd plentyn ifanc yn gwybod bod ei hofnau o’r tywyllwch wedi gwaethygu’n ddiweddar. Roedd hyn oherwydd bod ei golau nos wedi torri’n ddiweddar ac nid oedd Mam yn gallu fforddio ei newid na’i drwsio iddi. Roedd staff Barnardo’s yn gallu cael gafael ar gyllid i gymryd lle’r golau nos ar yr un diwrnod a gwneud gwahaniaeth enfawr ar unwaith i’r plentyn.



**Mae Partneriaeth Casnewydd Barnardo’s** yn darparu ymyriadau sy’n seiliedig ar ddealltwriaeth o drawma ac sy’n canolbwyntio ar atebion i blant a theuluoedd lle mae angen penodol wedi cael ei gyfeirio at y gwasanaeth gan weithiwr cymdeithasol sy’n gyfrifol am achos. Rhannodd Mark Carter, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant, De-ddwyrain Cymru yn Barnardo’s yr enghraifft ganlynol:

*“Roedden ni’n gweithio gyda pherson ifanc 17 oed a oedd yn ddigartref yn flaenorol ac a oedd wedi symud i lety sy’n cael ei rannu yn ddiweddar. Roedd hi’n feichiog ers 20 wythnos. Roeddem yn gallu ei helpu i brynu dillad mamolaeth, côt gaeaf, a phrynu eitemau hanfodol i baratoi ar gyfer genedigaeth y babi ym mis Mehefin. Heb y gefnogaeth, ni fyddai wedi gallu paratoi ar gyfer genedigaeth y babi.”*

Roedd brodyr a chwiorydd 14, 12 ac 11 oed yn byw gyda’u tad. Aeth y tad yn sâl iawn a chafodd ei gludo i’r ysbyty lle bu farw’n ddiweddarach. Aeth y plant i fyw gyda chyn-bartner eu tad gan ei bod wedi chwarae rhan fawr yn eu bywydau. Cafodd y plant eu symud i’w gofal yn gyflym ac ni chawsant gyfle i gymryd dim o’u heiddo. Daeth aelodau o deulu’r tad i’w dŷ a chlirio ei eiddo gan gynnwys eiddo’r plant. Roedd y tri phlentyn yn drist nad oedd ganddynt unrhyw ddillad nag eitemau cyfarwydd.

Roedd cronfa Argyfwng Plant Barnardo’s yn galluogi gofalwr newydd y plant i brynu dillad gwely newydd, côt gaeaf yr un ar gyfer y plant a rhai eitemau hanfodol o ddillad. Roedd gan y plant ddewis o ran yr hyn roeddent yn ei brynu.



# Argymhellion i Lywodraeth Cymru

Mae Barnardo's wedi croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant newydd erbyn diwedd 2023 ac mae'n edrych ymlaen at sicrhau bod lleisiau a phrofiad plant, pobl ifanc a theuluoedd wrth galon hyn. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw strategaeth newydd yn drawsbynciol ar draws pob maes llywodraeth a'i bod yn cael ei chefnogi gan gynllun cyflawni a mesurau cynnydd sy'n uchelgeisiol ar gyfer y blynyddoedd nesaf.

Byddem yn argymell y mesurau canlynol i fynd i'r afael â thlodi a chostau byw yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â phlant, pobl ifanc a theuluoedd.

Gan fod tlodi'n fater sydd wedi bod yn barhaus ac yn heriol ers tro yng Nghymru, rydyn ni wedi awgrymu argymhellion i'w cymryd yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Er bod yr angen yn fwy dybryd a bod angen gweithredu'n gyflym, mae hyn i gydnabod y ffaith bod rhaid inni ganolbwyntio o hyd ar y nod tymor hir o leihau tlodi plant yng Nghymru a'r newidiadau sydd o fewn ein gallu i'w gwneud a allai gymryd peth amser i'w gweithredu.

**Tymor byr**

- Cyflymu'r broses o gyflwyno **prydau ysgol am ddim** wlle bynnag y bo modd, gan gynnwys rhoi mynediad ar unwaith i blant y mae eu rhieni'n cael Credyd Cynhwysol, wrth i'r cynllun gael ei gyflwyno'n gyffredinol. Byddem hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried sut y gellir ymestyn prydau ysgol am ddim i ysgolion uwchradd fel cam nesaf yn y polisi blaenllaw hwn a fydd yn sicrhau nad yw mwy o blant yng Nghymru yn mynd i'r ysgol yn llwglyd.
- **Cynyddu'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg.** Rydym yn falch o weld bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gynyddu'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg o £30 i £40 yr wythnos. Fodd bynnag, dywedodd pobl ifanc wrthym bod dros £20 o'r arian yma'n cael wario ar deithiau ar fysiau, sy'n golygu mai ychydig iawn sydd ganddynt dros ben i dalu am ginio, llyfrau neu unrhyw beth arall. Rydym hefyd yn croesawu'r adolygiad cynhwysfawr a fydd yn cael ei gynnal ar y Lwfans Cynhaliaeth Addysg. Bydd hwn yn gam pwysig i sicrhau bod y Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn effeithiol o ran cefnogi pobl ifanc 16 i 18 oed o gartrefi incwm isel i dalu costau addysg bellach.
- **Cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer awdurdodau lleol sydd wedi'i anelu at gefnogi plant sydd ar ffiniau gofal ac yng ngofal awdurdodau lleol.** Dyma rai o'r plant mwyaf difreintiedig yng Nghymru, a fydd eisoes yn agored i'r argyfwng costau byw a'i ganlyniadau gwaethaf.[9] Ar yr un pryd, gwyddom fod awdurdodau lleol yn wynebu dewisiadau eithriadol o anodd yn eu Setliad Llywodraeth Leol ac y byddant yn gwneud eto yn y dyfodol. Mae Barnardo's Cymru yn credu y dylai plant sydd ar ffiniau gofal awdurdod lleol neu sydd mewn gofal gael eu hamddiffyn gan Lywodraeth Cymru i sicrhau nad yw'r argyfwng costau byw yn cael effaith niweidiol ar yr arferion arloesol sy'n gallu helpu i gadw teuluoedd yn ddiogel gyda'i gilydd

  Bydd angen dybryd am y gwasanaethau hyn hefyd os ydyn ni am gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiwygio gofal cymdeithasol plant yn radical. Mae'n hanfodol bod y gwasanaethau hyn yn cael eu diogelu, ac yn ddelfrydol eu bod yn cael rhagor o fuddsoddiad, yn y blynyddoedd i ddod.
- **Sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn cael ei symud o'r teulu am y prif reswm o esgeuluso materol oherwydd tlodi.** Gweithredu'n gyflym i ganfod a chefnogi teuluoedd lle mae angen cymorth ariannol ar frys. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol a chydweithwyr cefnogi teuluoedd ledled Cymru yn gallu defnyddio cyllid argyfwng i dalu am bethau hanfodol syml fel dillad, bwyd, dodrefn a thanwydd.
- Mynd i'r afael â'r pwysau ar gyllidebau a gwasanaethau **Teuluoedd yn Gyntaf** ar frys ledled

---

[9] Edge of Care Briefing ENG FINAL.pdf (barnardos.org.uk)

[10] Dangosodd adroddiadau Barnardo's fod gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf wedi derbyn cyfanswm o 213 o atgyfeiriadau newydd yn ystod 2021 2022 – cynnydd o 64%, gan ymgysylltu â 330 o deuluoedd, sy'n gynnydd o 42%.

[11] Canfu adroddiad Barnardo's fod Gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf wedi gweld cynnydd yn y Prif Reswm dros Atgyfeirio – mae mwy o deuluoedd yn cael eu hatgyfeirio oherwydd iechyd meddwl a lles emosiynol gwael:
- 23 o deuluoedd yn chwarter 3
- 40 o deuluoedd yn chwarter 4 (cynnydd o 74%)

Cymru. Cafodd gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf eu cynllunio i ddarparu gwasanaethau ymyrraeth yn gynnar ac atal i deuluoedd mewn angen. Fodd bynnag, oherwydd y trothwyon statudol cynyddol, y galw cynyddol[10] a chymhlethdod yr angen y mae teuluoedd yn ei brofi,[11] mewn llawer o leoedd mae Teuluoedd yn Gyntaf bellach i bob pwrpas yn cyflawni rôl ar gyfer ffiniau gofal. Mae'n bosibl y bydd hyn yn gadael bwlch lle dylai fod cymorth i deuluoedd sydd angen ymateb drwy ymyrraeth gynnar neu atal.

Mae effaith chwyddiant ar ddarparu darpariaeth Teuluoedd yn Gyntaf hefyd yn cael effaith ddifrifol ar allu timau i deimlo eu bod yn gallu diwallu lefelau uchel o angen yn y gymuned. Heb unrhyw gynnydd i lawer o gontractau ers sawl blwyddyn, mae gwasanaethau wedi gweld toriadau real.

Mae Barnardo's yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu darpariaeth Teuluoedd yn Gyntaf, y pwyntiau straen sy'n effeithio fwyaf ar gyflawni, a sut y gellir buddsoddi darpariaeth yn y dyfodol. Ar ben hynny, dylid ymchwilio i ymchwiliad i'r argyfwng costau byw a sut mae hyn yn gwaethygu problemau teuluol sydd eisoes yn bodoli.

- Mae sicrhau bod teuluoedd yn cael mynediad at bopeth y mae ganddynt hawl iddo o dan y system nawdd cymdeithasol yn bryder allweddol yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru gyflymu a mabwysiadu cynigion ar gyfer **System Fudd-daliadau i Gymru,** a fydd yn sicrhau bod cymaint o incwm ag y bo modd ac yn hwyluso'r broses ymgeisio i aelwydydd ledled Cymru.

  **Edrych eto ar y Cynllun Cymorth Tanwydd dros y Gaeaf ar gyfer 2023-2024.** Rydyn ni'n ymwybodol fod y gaeaf hwn yn annhebygol o fod yn well na'r olaf i deuluoedd a fydd yn ei chael hi'n anodd i wresogi eu cartrefi. Nid oedd ymrwymiad i'r Cynllun Cymorth Tanwydd dros y Gaeaf yng Nghyllideb 23/24, a byddem yn annog Gweinidogion i ystyried sut y gellir targedu cymorth ychwanegol at y rhai sydd fwyaf mewn angen y gaeaf hwn.

**Tymor Canolig**

- **Cyflwyno trafnidiaeth am ddim i bobl ifanc dan 18 oed.** Mae'r rhwystrau ariannol i drafnidiaeth yng Nghymru yn cael effaith anghymesur ar bobl ifanc. Byddai cyflwyno trafnidiaeth am ddim yn agor cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant, a chyfleoedd cyfoethogi eraill, ar yr un pryd â sicrhau bod Cymru'n cyd-fynd â'r Alban.
  - Yn achos pobl ifanc sy'n gadael gofal, byddem yn argymell bod teithio am ddim ar fysiau yn cael ei ymestyn iddynt o 18 oed hyd at 25 oed.[12]
  - Byddem hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i gynnig trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i ofalwyr ifanc, gan ddefnyddio'r cynllun Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc, i roi'r cymorth hwn iddynt hyd at 25 oed.[12]
  - Dylai'r Llywodraeth hefyd ystyried ymestyn trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i deuluoedd sy'n gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg er mwyn ymestyn manteision trafnidiaeth am ddim i blant ieuengaf Cymru.
- **Ehangu'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg** fel bod holl elfennau Dechrau'n Deg ar gael mewn mwy o ardaloedd yng Nghymru. Mae 44% o blant sy'n byw mewn aelwydydd sydd dan anfantais economaidd yn byw y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg, rhaid i ni sicrhau ein bod yn diwallu eu hanghenion fel mater o frys.[13] Gellid cyflawni hyn drwy gynllun Dechrau Gorau mewn Bywyd ar gyfer pob awdurdod lleol ac ardal bwrdd iechyd sy'n gweithio drwy fuddsoddiad systemig a gwneud penderfyniadau yn ystod blynyddoedd pwysicaf bywyd plentyn.
- **Ehangu gofal plant di-dâl** i bob plentyn dwyflwydd oed, beth bynnag yw statws cyflogaeth neu hyfforddiant eu rhieni. Dylai mesur llwyddiant gofal plant am ddim ganolbwyntio ar ganlyniadau i blant ac ni ddylai gael ei bennu gan statws rhiant.
- **Cyflwyno taliad costau byw i ofalwyr ifanc.** Mae llawer o ofalwyr ifanc yng Nghymru yn ysgwyddo llawer iawn o gyfrifoldeb drwy ofalu am berthynas ond nid ydynt yn cael unrhyw gymorth ariannol i wneud hynny. Mae eu cyfraniad i'r economi a chymdeithas yn aruthrol, ac eto maent yn aml yn dweud eu bod

---

[12] *https://cms.barnardos.org.uk/sites/default/files/2022-06/Transport%20for%20Freedom%20-%20Barnardo%27s.pdf*

[13] *https://www.savethechildren.org.uk/content/dam/global/reports/education-and-child-protection/stc-wales-childcare-report-2017.pdf*

yn teimlo'n angof ac yn anweledig, tra'n wynebu heriau ariannol sylweddol. Gan ddefnyddio'r cynllun Adnabod Gofalwyr Ifanc, byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried sut y gellid cyflwyno taliad untro o £500 i ofalwyr ifanc (i gyd-fynd â'r taliad i ofalwr di-dâl) i gefnogi'r bobl ifanc hyn.significant financial challenges.

- **Ymrwymo i gyflwyno bwndeli i fabis** ledled Cymru. Canfu cynllun peilot 2018 fod y cynllun peilot bwndeli i fabis yn Abertawe wedi sicrhau canlyniadau cadarnhaol ac wedi lleihau stigma rhieni newydd drwy greu llinell sylfaen a sicrhau bod pob rhiant yn gallu darparu'r pethau hanfodol y mae babi newydd-anedig eu hangen.[14] Ar adeg lle mae pwysau ariannol enfawr ar y rhan fwyaf o aelwydydd, byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ymrwymo i gyflwyno hyn yn gyffredinol, a sicrhau bod pob rhiant newydd yn cael rhywfaint o gefnogaeth i'w teuluoedd ifanc.
- Cynllunio ar gyfer dyfodol y **Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol** i sicrhau bod hyn yn arwain at ganlyniadau a sefydlogrwydd ariannol gwell i bobl ifanc sy'n gadael gofal a grwpiau difreintiedig eraill o bobl ifanc, yn y tymor byr a'r tymor hir.



**Y Tymor Canolig i'r Tymor Hir**

- Rydyn ni'n annog Llywodraeth Cymru i gydnabod y dystiolaeth gynyddol am effaith y cynnydd mewn costau byw ar iechyd plant a sut gallai hyn gynyddu anghydraddoldebau iechyd. Rydyn ni'n arbennig o bryderus ynghylch **effeithiau tymor hir tlodi ar ganlyniadau iechyd, gan gynnwys yr effaith ar iechyd meddwl.** Mae ein gwaith gyda theuluoedd yng Nghymru wedi dangos i ni bod gwella iechyd meddwl pobl ifanc yn aml yn gofyn am ddealltwriaeth o ddeinameg eu teulu cyfan er mwyn sicrhau newid parhaus. Rydyn ni wedi llwyddo i roi'r model hwn ar waith yng Ngwasanaeth Lles Teuluoedd Caerdydd Barnardo's. Dylai Llywodraeth Cymru **flaenoriaethu buddsoddiad mewn ymyriadau sy'n defnyddio dull teulu cyfan.**
- Archwilio sut y gall datganoli pellach gefnogi'r posibilrwydd o gael **Taliad Plant i Gymru,** yn ogystal â Budd-dal Plant, a fyddai'n cefnogi teuluoedd incwm isel gyda chostau magu plentyn. Mae Llywodraeth yrW Alban yn darparu taliad wythnosol o £20 i rieni plant dan 6 oed ac sy'n derbyn budd-daliadau.[15]
- Gweithredu **cronfa argyfwng costau byw Llywodraeth Cymru,** i alluogi sefydliadau ac unigolion i gael gafael ar gyllid ar gyfer pobl sy'n wynebu caledi sylweddol brys.
- **Cydnabod tlodi fel digwyddiad trawmatig** ym mywyd plentyn, a sicrhau cymorth tymor hir sy'n seiliedig ar drawma i blant, pobl ifanc a theuluoedd, sy'n gysylltiedig nid yn unig ag effeithiau cychwynnol tlodi, ond canlyniadau tymor hir ar iechyd meddwl, iechyd corfforol a chanlyniadau eraill.
- Mae ymchwil gan CASCADE (Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant) ym Mhrifysgol Caerdydd wedi dangos bod y tebygolrwydd o fynd i ofal yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r mynegeion amddifadedd, ac felly tlodi.[16]

---

[14] *https://gov.wales/evaluation-baby-bundles-pilot-summary-html#section-66673*

[15] *https://www.mygov.scot/scottish-child-payment*

[16] Child Welfare Inequalities in a Time of Rising Numbers of Children Entering Out-of-Home Care, British Journal of Social Work, Martin Elliot 2019 *https://academic.oup.com/bjsw/article/50/2/581/5681458?login=false#201575914*



## Gwybodaeth am Barnardo's Cymru

Mae Barnardo's Cymru wedi bod yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru ers dros 100 mlynedd, ac mae'n un o'r elusennau plant mwyaf. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n cynnal dros 60 o wasanaethau amrywiol ar hyd a lled Cymru, ac yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol. Bob blwyddyn, rydyn ni'n cefnogi mwy na 10,000 o blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn rheolaidd. Ein nod yw sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer mwy o blant drwy gynnig y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i wneud yn siŵr bod teuluoedd yn gryfach, bod plentyndod pawb yn fwy diogel, a bod y dyfodol yn fwy cadarnhaol. Rydyn ni'n defnyddio'r wybodaeth rydyn ni wedi'i hennill o'n gwaith uniongyrchol i ymgyrchu i wella bywydau plant, pobl ifanc a theuluoedd drwy hyrwyddo newid cadarnhaol mewn polisi ac ymarfer. Rydyn ni'n credu y gall y cymorth cywir, cefnogaeth ymroddedig a ffydd olygu bod pob plentyn yn gallu cyflawni ei botensial llawn.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

**Abigail Rees**
**abigail.rees@barnardos.org.uk**

Believe in children
Barnardo's Cymru

Believe in children

Barnardo's Cymru

© Barnardo's, 2023 Cedwir pob hawl

Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r adroddiad hwn, gan gynnwys delweddau, na'i storio ar system adalw awdurdodedig, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ffurf na thrwy unrhyw fodd, heb ganiatâd blaenorol y cyhoeddwr.

Mae'r holl ddelweddau yn cael eu gosod gan fodelau. Mae enwau wedi'u newid i ddiogelu hunaniaeth.

barnardos.org.uk

Barnardo House, Tanners Lane, Barkingside,
Ilford, Essex IG6 1QG | Tel: 020 8550 8822

Elusen Gofrestredig Barnardo's Rhifau 216250 a SC037605 24160H23